**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) 2020**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron Senedd Cymru os yw Offeryn Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

2. Gosodwyd Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) 2020 gerbron Senedd y DU ar 14 Hydref 2020. Cewch weld y Rheoliadau yn:

   https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213379

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcanion**

3. Amcan yr OS yw mynd i'r afael â methiant cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n codi o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd fel y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae hefyd yn cywiro hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE.

4. Mae'r OS yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:
   - Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

**Darpariaeth berthnasol i'w gwneud trwy'r OS**

5. Roedd angen y newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn gan fod deddfwriaeth berthnasol yr UE wedi'i newid a bod deddfwriaeth UE newydd wedi'i mabwysiadu ers gwneud yr OSau Ymadael â'r UE presennol. Mae angen ailwladoli pwerau i'r DU ac roedd angen rhai newidiadau oherwydd Protocol Gogledd Iwerddon.

6. Mae'r Rheoliadau'n sicrhau bod deddfwriaeth bresennol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cael eu trosi'n gyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae Rheoliadau 2020 yn sicrhau bod y rheolau perthnasol yn y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn gymwys i gychod pysgota'r DU pa le bynnag y maent, yn amodol ar reolau gwahanol sy'n deillio o gytundebau rhyngwladol, a bod yr un rheolau hynny'n parhau i fod yn gymwys i'r holl gychod pysgota sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU.

7. Cafodd adrannau 30, 238 a 278 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 eu diwygio gan Reoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

er mwyn ychwanegu'r diffiniad “cyfyngiadau'r UE a ddargedwir”; fel cyfyngiad a grëwyd neu a godwyd gan neu o dan Gytuniadau'r UE cyn y diwrnod ymadael, ac sy'n ffurfio rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir, ac a newidir o dro i dro. Roedd yn destun Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol pan gafodd ei gyflwyno.

8. Mae Rheoliadau 2020 yn newid y diffiniad hwn yn y tair adran fel bod “exit day” yn cael ei ddileu a bod “IP completion day” yn cael ei roi yn ei le. Diffinnir “IP completion day” yn adran 39(1) i (5) Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 i olygu 31 Rhagfyr 2020 am 11pm.

9. Mae'r diwygiadau i adrannau 238 a 278 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn ymwneud â phwerau gorfodi Swyddogion Gorfodi Morol mewn perthynas â chyfyngiadau'r UE neu rwymedigaethau o dan y PPC, a rheolau ynghylch fforffedu pysgod neu gêr pysgota yn dilyn euogfarniad am drosedd pysgota môr. Swyddogaeth Gweinidogion Cymru yw penodi Swyddogion Gorfodi Morol yng Nghymru.

10. Mae Adran 108A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi Senedd Cymru i ddeddfu ar unrhyw bwnc heblaw am y rheini sydd wedi'u cadw'n benodol ar gyfer Senedd y DU yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O ran rheoli pysgodfeydd, Senedd Cymru sydd â'r cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Chymru.

11. Mae pwnc y diwygiadau a wneir o dan baragraffau 7 ac 8 yn ymwneud â meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, a allai fod yn destun Bil Senedd Cymru.

**Pam ei bod yn briodol gwneud y ddarpariaeth hon trwy'r OS**

12. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch polisi'r cywiriad. Byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr i gywiro'r cyfeiriad dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith, ac at gymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen. Trwy gydsynio i'r OS hwn, sicrheir bod un fframwaith deddfwriaethol yn bod ar draws Cymru a Lloegr. Mae hynny'n annog eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Lesley Griffiths AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

Hydref 2020